PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR RHAGLEN, CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION

DYDD LLUN, 25 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Taylor, Weaver a/ac Williams |

8 : YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

9 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

10 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

11 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror fel cofnod cywir.

12 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 - Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd i ddod yn gyflogai i'r awdurdod;

Paragraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

13 : PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN - CYNLLUNIO TREFNIDIAETH YSGOLION

Ailgynullwyd y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Sefydliadol Ysgolion i dderbyn ac ystyried y canfyddiadau o'r Ganolfan Asesu. Roedd gan y Pwyllgor bum adroddiad asesu i'w hadolygu.

Wrth wneud ei benderfyniad, cymerodd y Pwyllgor i ystyriaeth gais gwreiddiol pob

ymgeisydd, sut y sgoriodd pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, yr adroddiad asesu ar gyfer pob un o'r tasgau a oedd yn mynd i'r afael â chryfder a sgiliau'r ymgeisydd. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid derbyn un ymgeisydd ar gyfer cyfweliad ffurfiol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dewisiadau o ran pynciau cyflwyno ac yn gosod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD

1. Gwahodd ymgeisydd 10 i gyfweliad;

2. Hysbysu'r ymgeisydd o'r pwnc cyflwyno a bod uchafswm o 10 munud yn cael ei neilltuo ar gyfer y cyflwyniad;

3. Cwblhau’r cwestiynau a ddewiswyd ar gyfer y Pwyllgor cyfweld.

14 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD LLUN 8 EBRILL 2019 AM GANOL DYDD

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm